

Cyflwyniad

Bydd y nodiadau hyn yn eich helpu i benderfynu p'un a ddylech wneud cais am Dystysgrif Eithriad Enillion Bach (SEE). Os ydych yn penderfynu eich bod am wneud cais, llenwch y ffurflen gais amgaeedig ar dudalennau 3 a 4 neu gallwch wneud cais drwy e-bost yn www.hmrc.gov.uk/lowearnings

Pwy ddylai dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 2

Os ydych yn 16 oed neu'n hŷn ac yn hunangyflogedig (hyd yn oed yn eich amser rhydd) mae'n rhaid i chi dalu CYG Dosbarth 2, sy'n £2.75 yr wythnos ar hyn o bryd, oni bai:

- eich bod dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth
- y gwnaethoch gais cyn 1977 ac mae hawl gennych dalu cyfraniadau is fel gwraig briod neu weddw
- eich bod wedi gwneud cais am, ac wedi derbyn, Tystysgrif Eithriad Enillion Bach am y cyfnod dan sylw.

Pam fod angen talu CYG Dosbarth 2

Mae CYG Dosbarth 2 yn cyfrif tuag at:

- Pensiwn y Wladwriaeth
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- budd-daliadau profedigaeth
- Lwfans Mamolaeth

Os nad ydych yn talu CYG Dosbarth 2 neu os byddwch yn gwneud cais am, ac yn derbyn, Tystysgrif Eithriad Enillion Bach **efallai y collwch eich hawl i Bensiwn y Wladwriaeth a'r budd-daliadau a restrir uchod.**

Os yw eich enillion yn isel ac nid ydych yn gwneud cais am Eithriad Enillion Bach, mae'n rhaid i chi dalu CYG Dosbarth 2. Os methwch a thalu, efallai y bydd asiantaeth casglu dyledion preifat yn cysylltu â chi, neu efallai casglwn yr hyn sy'n ddyledus gennych drwy eich cod treth.

Os ydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016, mae'n bosib y cewch eich effeithio gan newidiadau i wneud Pensiwn y Wladwriaeth yn fwy syml. Mae'n bosib y dymunwch ystyried sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar eich penderfyniad i dalu CYG Dosbarth 2. Am fwy o wybodaeth ewch i www.gov.uk/changes-state-pension

Yn hunangyflogedig ac yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith

Pan rydych yn hunangyflogedig, rydych yn parhau i fod yn agored i dalu CYG Dosbarth 2 yn ystod cyfnodau pan rydych yn ddi-waith dros dro ac yn hawlio budd-daliadau. Os, fodd bynnag, yw eich enillion o hunangyflogaeth yn is na lefel eithriad enillion bach, gallwch wneud cais am Dystysgrif Eithriad Enillion Bach. Os caiff ei dyfarnu i chi, mae'n rhaid i chi dalu CYG Dosbarth 2.

Talu er mwyn diogelu hawl i fudd-daliadau

Hyd yn oed os ydych yn derbyn Tystysgrif Eithriad Enillion Bach, mae'n dal i fod yn bosib i chi ddewis talu CYG Dosbarth 2 yn wirfoddol er mwyn cadw eich hawl i rai budd-daliadau. Cyn eich bod yn dewis talu CYG gwirfoddol, dylech fynd i www.gov.uk/browse/working/state-pension i gael rhagor o wybodaeth ynglyn â'ch hawl i Bensiwn y Wladwriaeth, gan gynnwys y nifer o flynyddoedd cymwys sydd gennych hyd yn hyn, credydau Yswiriant Gwladol a budd-daliadau eraill.

Dylai menywod sy'n ystyried gwneud cais am Dystysgrif Eithriad Enillion Bach neu sydd â thystysgrif yn barod ac sydd am dalu CYG Dosbarth 2 yn wirfoddol, gael cyngor o'r Ganolfan Byd Gwaith. Gall dal Tystysgrif Eithriad Enillion Bach effeithio ar gyfradd y Lwfans Mamolaeth y mae'n bosib y mae gennych hawl iddo.

Os ydych am dalu cyfraniadau Dosbarth 2 yn wirfoddol, rhwch wybod i ni yng nghwestiwn 15 ar y ffurflen gais neu dychwelwch eich Tystysgrif Eithriad Enillion Bach gydag eitem 1 wedi'i chwblhau.

Enillion bach

Mae'n bosib na fydd yn rhaid i chi dalu CYG Dosbarth 2 os oedd eich enillion (hynny yw, yr arian sydd yn weddill ar ôl treuliau), neu os disgwylir iddynt fod:

- yn llai na £5,725 ar gyfer y cyfnod o 6 Ebrill 2013 i 5 Ebrill 2014
- yn llai na £5,885 ar gyfer y cyfnod o 6 Ebrill 2014 i 5 Ebrill 2015

Os yw hyn yn gymwys dylech lenwi'r ffurflen gais ar dudalennau 3 a 4 a'i hanfon atom cyn gynted â phosibl. Byddwch yn gwirio eich cais a'ch ffurflenni treth Hunanasesiad, os ydych chi'n gael.

Os bydd eich enillion ar gyfer y flwyddyn arien 2014-15 yn sylweddol o is na'r flwyddyn dreth flaenorol, rhwch dystiolaeth ar rheswm pam i ni.

Os nad ydych wedi cyflwyno unrhyw ffurflenni treth Hunanasesiad, dylech anfon copi o'ch cyfrifon elw a cholled, oni bai eich bod yn fusnes Newydd, ac yn yr achos hwnnw, bydd eich amcangyfrif yn ddiogol.

Os byddwch yn gwneud cais am Eithriad Enillion Bach bydd angen i chi gofrestru gyda CThEM i ddangos eich bod yn hunangyflogedig. Mae'n gyflym ac yn hawdd cofrestru ar-lein. Am ragor o wybodaeth ewch i www.hmrc.gov.uk/selfemployed

Cyfrifon Enillion

Ni allwch wneud cais am Eithriad Enillion Bach os yw eich enillion o hunangyflogaeth yn ystod y cyfnod o 6 Ebrill 2014 i 5 Ebrill 2015 wedi cyrraedd £5,885 erbyn yr amser rydych yn gwneud cais.

Os ydych yn hunangyflogedig mewn mwy nag un busnes, dylech ychwanegu'r enillion net ym mhob busnes at ei gilydd, felly bydd colled sy'n codi mewn un yn cael ei gwrthbwysu yn erbyn elw yn y llall. Peidiwch â chyfrif fel enillion unrhyw incwm o gynllun y Lwfans Menter Newydd neu o ffynonellau ac eithrio o hunangyflogaeth.

I gyfrifo cyfanswm eich enillion net, tynnwch unrhyw dreuliau busnes a dalwch pan yn hunangyflogedig o'r enillion gros. Er enghraifft, gallwch ddiwynnu rhent a threth gyngor, yswiriant, cyflogau cyflogaeth, costau argraffu a deunydd ysgrifennu, atgyweiriadau a thâl post. Dylech hefyd rhoi ystyriaeth i ddibrisiad cyfarpar fel cerbydau os y'u defnyddir ar gyfer eich busnes. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.hmrc.gov.uk/incometax/relief-self-emp.htm

Ni ddylech ddiwynnu unrhyw dyniadau, taliadau Treth Incwm neu ar gyfer CYG Dosbarth 2 a/neu Ddosbarth 4 sy'n daladwy ar gyfer eich hun.

Dylech gymryd i ystyriaeth swm neu werth unrhyw stoc rydych yn ei dynnu o'ch busnes ar gyfer eich defnydd personol.

Lle mae gennych hefyd enillion o waith enillydd cyflogedig yn yr un flwyddyn a'r enillion a ddangosir yng nghyfrifon y busnes fel derbyniadau'r busnes, gellir diystyru'r enillion hynny wrth gyfrifo'r enillion o'ch busnes hunangyflogedig.

Byddwn hefyd yn derbyn cyfrifon tair llinell gan drethdalwyr sydd â throsiant gros o lai na £79,000 y flwyddyn. Dylai cyfrifon tair llinell ddangos derbyniadau neu enillion gros busnes, gan gynnwys comisiynau neu gildyrnau, cyfanswm treuliau a ffigurau elw net. Bydd yn dal i fod angen i chi gadw cofnodion busnes cywir.

Ar ôl derbyn amcangyfrif o'r hyn rydych yn debygol o'i ennill, bydd CThEM yn gwirio eich cais a'ch ffurflenni treth Hunanasesiad, os ydynt ar gael. Mae'n bosib y byddwn yn gofyn i chi anfon copi o'ch cyfrifon elw a cholled atom, neu gyfrifon tair llinell, a gallwn hefyd ystyried eich enillion mewn blynyddoedd cynharach ac unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd ers hynny.

Os ydych yn fusnes newydd bydd eich amcangyfrif yn ddigonol.

Amgylchiadau arbennig

Diogelu eich Pensiwn y Wladwriaeth

Oni bai bod gennych Eithriad Enillion Bach, fel cyfrannwr hunangyflogedig rhaid i chi dalu CYG Dosbarth 2 am yr adeg yr ydych yn hunangyflogedig, hyd yn oed os oes eisoes gennych ddigon o flynyddoedd cymwys ar gyfer eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Gwybodaeth bwysig

Mae'r Llywodraeth yn newid Pensiwn y Wladwriaeth o fis Ebrill 2016.

Bydd y Pensiwn y Wladwriaeth newydd hwn ar gyfer:

- dynion a anwyd ar neu cyn 6 Ebrill 1951
- menywod a anwyd ar neu cyn 6 Ebrill 1953

Bydd y system bresennol o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn cael ei disodli gan y newidiadau, gan greu un system - y pensiwn un haen. Byddwch angen o leiaf 10 mlynedd cymwys i dderbyn unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth o 2016. Caiff cyfraniadau Yswiriant Gwladol a delir cyn 2016 eu cydnabod yn y system newydd. Mae newidiadau'n cael eu gwneud hefyd i oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Os cyrhaeddwch oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016, cechw eich effeithio gan y newidiadau arfaethedig hyn. Mae'n bosib y dymunwch ystyried sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar eich penderfyniad i dalu CYG Dosbarth 2 gwirfoddol. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/changes-state-pension

Os ydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn mis Ebrill 2016, bydd y rheolau presennol yn gymwys, am fwy o wybodaeth ewch i www.gov.uk/state-pension/overview

O 6 Ebrill 2010 mae credydau ar gyfer Rhieni a Gofalwyr sy'n cyfrif tuag at eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ar gael i bob eraill sy'n derbyn Budd-dal Plant, sy'n gofalu am berson sâl neu achall neu sy'n ofalwyr maeth cymeradwy. Mae yna gredydau hefyd ar gyfer aelodau teulu (heblaw am rieni) sy'n gofalu am blentyn o dan 12. Am fwy o wybodaeth ewch i www.gov.uk/national-insurance-credits

Dynion sy'n cyrraedd neu sydd dros 60

Os ydych o dan 65 a chawsoch eich geni ar neu ar ôl 6 Hydref 1953, ac mae eich enillion yn isel, gallai fod yn buddiol i chi wneud cais am Dystysgrif Eithriad Enillion Bach. Os foddid eithriad i chi yn yr amgylchiadau hyn, byddwch yn elwa o gredydau cyfraniadau sy'n cael eu dyfarnu yn awtomatig er mwyn diogelu eich Pensiwn y Wladwriaeth a budd-dalidau eraill. Ni ellir rhoi credydau awtomatig os ydych yn treulio mwy na 182 o ddiwrnodau tramor o fewn blwyddyn.

Ym mis Hydref 2016, tynnir yn ôl cymhwyster am awtogredydau er mwyn bod yn unol â'r cynnydd yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth i fenywod.

Eich Tystysgrif Eithriad Enillion Bach (SEE)

Os caiff eich cais ei gymeradwyo, byddwn yn anfon Tystysgrif Eithriad Enillion Bach atoch. Bydd y dystysgrif fel arfer yn cychwyn o ddyddiad eich cais, er mae'n bosib iddi gael ei hól-ddyddio am hyd at 13 wythnos, a bydd fel arfer yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn dreth ym mis Ebrill. Ni ellir ei chyflwyno i ymddrin ag unrhyw wythnos rydych wedi talu cyfraniad Dosbarth 2 amdani'n barod. Fodd bynnag, mae'n bosib y gallwch gael ad-daliad o'r CYG rydych eisoes wedi talu - gweler yr adran 'Cael ad-daliad.'

Gellir ôl-ddyddio tystysgrifau am uchafswm o 13 wythnos, a bydd angen i chi dalu CYG Dosbarth 2 ar gyfer unrhyw gyfnod nad yw'n cael ei gwmpasu gan Dystysgrif ddilys ar gyfer Eithriad Enillion Bach. Byddwn yn gadael i chi wybod os yw hyn yn effeithio arnoch ar ôl i ni wirio eich Hunanasesiad, y cyfrifon tair llinell a/neu gyfrifon elw a cholled naill ai ar eich cais cyntaf neu eich cais i adnewyddu.

Cael ad-daliad

Cyn i chi wneud cais am ad-daliad o CYG Dosbarth 2 dylech ystyried yr effaith ar yr hawl i fudd-daliadau yn y dyfodol. Os ydych wedi talu CYG Dosbarth 2 ac mae gennych enillion bach ar gyfer yr un cyfnod, gallwch gael ad-daliad, er mae'n bosib nad ydych wedi gwneud cais am eich tystysgrif ar yr adeg gywir. Er enghraifft, os oedd eich incwm hunangyflogedig net (hynny yw eich elw ar ôl didynnu treuliau) a enillwyd yn y cyfnod 6 Ebrill 2013 i 5 Ebrill 2014 yn llai na £5,725.

Sut i wneud cais

Os ydych yn meddwl fod gennych hawl i dderbyn ad-daliad, mae angen i chi, nid eich asiant, anfon y canlynol atoch:

- llythyr wedi'i lofnodi sy'n datgan eich bod yn dderbyn ad-daliad
- tystiolaeth o enillion ar gyfer y flwyddyn dreth berthnasol, er enghraifft
 - cyfrifon elw a cholled
 - math arall o dystiolaeth sy'n dangos eich incwm

Peidiwch ag oedi i ysgrifennu atom gan y gallwch anfon tystiolaeth yn hwyrach

Terfynau amser

Mae yna derfynau amser caeth ar gyfer ad-daliadau. Mae'n rhaid i chi wneud cais nid yn hwyrach na'r 31 Ionawr yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth (6 Ebrill i 5 Ebrill) dan sylw. Er enghraifft, mae'n rhaid hysgrifennu ad-daliad o CYG Dosbarth 2 a dalwyd ar gyfer y cyfnod 6 Ebrill 2013 i 5 Ebrill 2014 ar ôl 5 Ebrill 2014 ond cyn 31 Ionawr 2015.

Os ydych yn gyflogedig ac yn hunangyflogedig

Yn ôl gofynion y gyfraith mae'n rhaid eich bod yn bodloni holl rwymedigaethau Yswiriant Gwladol fel cyflogai ym mhob un o'ch cyflogaethau ac fel person hunangyflogedig. Os ydych yn gweithio i gyflogwr yn ogystal â bod yn hunangyflogedig, efallai y caniateir i chi ohirio talu eich CYG Dosbarth 2 a/neu CYG Dosbarth 4. Gelwir hyn yn 'ohiriad'. Dylech ond wneud cais am ohiriad os disgwylir i'ch enillion hunangyflogedig net fod yn uwch na'r lefel eithrio enillion bach, sef £5,885. Os disgwylwch i'ch enillion hunangyflogedig i fod yn llai, yna nid yw'r gohiriad yn gymwys ac efallai gallwch fod yn gymwys am Eithriad Enillion Bach a bydd angen i chi wneud cais. Am fwy o wybodaeth ewch i www.gov.uk/child-maintenance-for employers/overview

Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae Cyllid a Thollau EM yn Rheolydd Data o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998. Am fwy o wybodaeth ewch i www.hmrc.gov.uk/cymraeg/eichsiarter.pdf

Darllenwch y cyfarwyddyd cysylltiedig cyn llenwi'r ffurflen hon gan ddefnyddio priflythrennau. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, ffoniwch y Ganolfan Gyswilt Cymraeg ar 0300 200 1900 neu ewch i www.hmrc.gov.uk/selfemployed

Nid yw'r ffurflen hon yn gais am ad-daliad

1 Cyfenw

2 Enw cyntaf

3 Enwau cyntaf eraill

4 Teitl (Mr, Mrs, Miss, Ms neu arall)

5 Rhif Yswiriant Gwladol

6 Dyddiad geni DD MM BBBB

7 Pryd ddechreuodd eich hunangyflogaeth? DD MM BBBB

8 Cyfeiriad cartref

9 Rhifau ffôn
Rhif ffôn

Ffôn cymudol

10 Cyfeiriad busnes os yn wahanol i'r cyfeiriad cartref

Rhif ffôn

11 Beth yw eich galwedigaeth pan yn hunangyflogedig?
Os oes gennych chi'n gael un alwedigaeth ac mae angen mwy o le arnoch chi'n rhoi fanylion o dan 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 4

12 Beth yw eich enillion net disgwyledig o hunangyflogaeth ar gyfer y cyfnod 6 Ebrill 2014 i 5 Ebrill 2015? Dylai hyn fod o dan £5,885
£

13 Os ydych wedi bod yn hunangyflogedig am fwy na 12 mis, beth yw'r flwyddyn dreth neu'r flwyddyn cyfrifyddu olaf y mae gennych chi ffigurau enillion ar ei chyfer? Bydd yr wybodaeth a roddwch yn cael ei thrin yn gyfrinachol
O DD MM BBBB

I DD MM BBBB

14 Os ydych wedi bod yn hunangyflogedig am fwy na 12 mis nodwch isod y cyfrifon tair llinell ar gyfer y cyfnod uchod (dylai derbyniadau neu enillion gros busnes gynnwys comisiynau neu gildyrnau)
Derbyniadau/Enillion gros busnes
£
Cyfanswm y treuliau
£
Ffigur elw net
£

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

15 Os ydych wedi gwneud cais am, ac yn derbyn, Eithriad Enillion Bach, a ydych am dalu cyfraniadau Dosbarth 2 yn wirfoddol?

Nac ydw Ydw

Os atebwch Ydw, o ba ddyddiad? DD MM BBBB

Os ydych yn ansicr o ba ddyddiad y dylech dalu'n wirfoddol, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900**

16 Datganiad

Rwyf wedi darllen y cyfarwyddyd ac yn datgan bod yr wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon yn gywir ac yn

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Datodwch y ffurflen hon ac anfonwch hi i:

Cyllid a Thollau EM
Canolfan Gyswllt Gymraeg
Tŷ Moelwyn
Tros y Bont
Porthmadog
LL49 9AB.

Cadwch y cyfarwyddyd er mwyn cyfeirio ato.

Gwybodaeth ychwanegol

Defnyddiwch hwn fel y lle ychwanegol efallai byddwch ei angen ar gyfer cwestiynau 11 ac os oes angen i chi sôn wrthym am ostyngiad yn eich enillion. (Defnyddiwch ddalen ar wahân os yn angenrheidiol.)

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio